

Cylchlythyr Cynllun Gweithlu Fferylliaeth

Strategol AaGIC Gaeaf 2023/2024



Cynnwys

Croeso	1
Cynnydd hyd yma	2
Blaenoriaethau 2024 a'r Camau Nesaf.....	7
Blwyddyn yn ddiweddarach.....	8
Cysylltwch!	8



Croeso

Bydd y cylchlythyr hwn yn eich cyrraedd gan ein bod ar fin bwrw ymlaen â chynlluniau'r gweithlu fferyllol yn gyflym. Bydd yn hollbwysig yn y misoedd nesaf i gael mewnbwn ac ymrwymiad ein holl randdeiliaid i lunio a thrafod y manylion y tu ôl i gamau gweithredu cynlluniau'r gweithlu.

Rwy'n gwerthfawrogi bod pawb yn hynod o brysur gyda'u swyddi dydd, ond byddwn yn gobeithio y gallwn wneud amser i chwarae ein rhan yn y broses o roi camau gweithredu'r cynllun gweithlu ar waith. Dim ond drwy ddull partneriaeth y gallwn wneud gwahaniaeth gwirioneddol i'n gweithlu presennol a'n gweithlu yn y dyfodol.

Os hoffech gyfrannu neu rannu'r hyn yr ydych wedi bod yn ei wneud yn unol â'r cynllun gweithlu fferyllol strategol, anfonwch e-bost at:

heiw.pharmacyworkforce@wales.nhs.uk

Gallwch ddarllen y Cynllun Gweithlu Fferylliaeth Strategol llawn yma:

aagic.gig.cymru/files/strategic-workforce-plan

Gallwch weld crynodeb o'r 31 Cam Gweithredu yma:

aagic.gig.cymru/files/pharmacy-aims-cymru

Dilynwch ein cynnydd trwy wefan AaGIC yma:

aagic.gig.cymru/gweithlu/cynllun-gweithlu-fferylliaeth-strategol/

Neu ar gyfryngau cymdeithasol:

 [aagic.gig.cymru](https://twitter.com/aagic.gig.cymru)

 facebook.com/AAGIC.GIG


 x.com/AaGIC_GIG

Yr Athro Margaret Allan, BPharm (Anrh) FRPS,
Deon Fferylliaeth




Cynnydd hyd yma

Cylchdro Gweithredu Cynllun Gweithlu Fferylliaeth Strategol



Y Saith Thema Strategol



Thema 1

Gweithred 4

Dylid adolygu a datblygu'r Catalog Electronig o Atebion Gweithlu.

Statws

Mynd yn fyw

Diweddariad

Mae'r "Catalog o Atebion Gweithlu" yn gasgliad o ymyriadau sydd wedi'u defnyddio yng Nghymru i liniaru pwysau ar y gweithlu wrth ddarparu gwasanaethau fferylliaeth y GIG. Mae ganddo enghreifftiau o bob maes o'r llwybr gofal integredig mewn fferylliaeth.

Casglwyd y cynnwys yn ystod ein hymgysylltiad cychwynnol, gan gefnogi creu'r Cynllun Gweithlu Fferylliaeth Strategol rhwng Tachwedd 2021 a Mawrth 2022. Darparodd y Catalog bwynt canolog ar gyfer rhannu arfer gorau.

Ymrwymodd AaGIC i gynnal y Catalog tan fis Mawrth 2024 lle byddai penderfyniad yn cael ei wneud ar fuddsoddiad pellach fel dull o rannu arfer da. Gellir cyrchu'r Catalog yma:

[Catalogue of Workforce Solutions - Overview | Rise 360 \(articulate.com\)](#)

Rydym yn falch iawn gyda chyflwyniad a fformatio fel dull o rannu arfer gorau. Bydd y catalog yn parhau i fod yn adnodd byw y gall rhanddeiliaid gael mynediad ato, am 12 mis arall.

Wrth i ni symud adnoddau ac ymgysylltu â rhanddeiliaid i ganolbwyntio ar nifer o Gamau Gweithredu cymhleth yn y Cynllun Gweithlu, byddwn yn defnyddio dull y Catalog fel patrwm enghreifftiol ar gyfer rhannu arfer gorau wrth symud ymlaen.



Thema 2

Gweithred 7

Datblygu atebion pwrpasol i wella atyniad a recriwtio i rolau fferylliaeth mewn ardaloedd lle mae gwledigrwydd yn her benodol.

Statws

Cynllunio

Diweddariad

Drwy gydol y broses o ddatblygu'r Cynllun Gweithlu, a'n hymgysylltiad helaeth â rhanddeiliaid ledled Cymru, mae'n amlwg bod heriau denu, recriwtio a chadw mewn ardaloedd gwledig yn gymhleth, ac yn amrywio yn ôl lleoliad daearyddol.

Nawr bod ein gweithgareddau cwmpasu mewnol wedi'u cwblhau, rydym am siarad â rhanddeiliaid am yr heriau penodol mewn ardaloedd gwledig. Rydym yn cynnig cynnal gweithdai ym mis Mehefin a mis Gorffennaf i nodi heriau ac archwilio atebion ar draws y sector aciwt, fferylliaeth gymunedol ac ymarfer cyffredinol.

Chwiliwch am fanylion pellach am y gweithdai yn ystod mis Mai, drwy sianeli cyfathrebu sefydledig. Fel arall, gallwch gofrestru eich diddordeb nawr drwy e-bostio:

heiw.pharmacyworkforce@wales.nhs.uk.

Thema 3

Gweithred 12

Cytuno a gweithredu Strategaeth Fferyllwyr Ymgynghorol Cymru.

Statws

Gweithred

Diweddariad

Mae'r cyfnodau Ymchwil, Data ac Ymgysylltu wedi'u cwblhau. Rydym wedi defnyddio adborth gan ein cynulleidfa darged i fireinio cynnwys ein hadnodd, cyn ei lansio yn ddiweddarach y gwanwyn hwn.

Os ydych chi'n Gyfarwyddwr Gweithredol, yn Gyfarwyddwr neu'n Gyfarwyddwr Cynorthwyol, ac

yn dymuno gwella'r gwasanaeth, trwy ddatblygu rôl fferylllydd ymgynghorol, yna gallwch chi brofi ein hadnodd drwy e-bostio:

HEIW.PharmacyWorkforce@wales.nhs.uk.

Manylion Fferylllydd Ymgynghorol

Ym mis Chwefror, cydnabu partneriaid ganlyniadau llwyddiannus Cymuned Ymarfer beilot 18 mis ar gyfer Cymhwysedd Fferylllydd Ymgynghorol. O'r CoP enillodd 66% o fferyllwyr y cymhwyster fferylllydd ymgynghorol ar y cyflwyniad cyntaf, o gymharu â chyrrhaeddiad o 51% ar draws y DU.

Galwodd Llywodraeth Cymru a'r Gymdeithas Fferyllol Frenhinol (RPS) ar bartneriaid i harneisio ymrwymiad fferyllwyr sydd newydd gymhwyso i gefnogi eraill i ennill y cymhwyster. Mae Prif Fferyllwyr, fferyllwyr cymwys ac Addysg a Gwella Iechyd Cymru yn archwilio modelau posibl ar gyfer ail gam.

Thema 4

Gweithred 14

Datblygu sgiliau, cymwyseddau ac ymddygiadau digidol generig cyson o fewn y gweithlu fferylliaeth gan ddefnyddio Fframwaith Gallu Digidol AaGIC.

Statws

Gweithred

Diweddariad


Mae tîm Cynllun Gweithlu Fferylliaeth AaGIC wedi bod yn gweithio'n agos gyda'n Tîm Digidol i gefnogi a gwella ymgysylltiad staff fferyllol â'r Fframwaith Gallu Digidol.

Mae'r Fframwaith Gallu Digidol ar gyfer gofal iechyd yng Nghymru yn helpu unigolion i nodi'r sgiliau, y cymwyseddau a'r ymddygiadau sydd eu hangen arnynt i gyfranogi'n llawn, ac yn ddiogel, mewn amgylcheddau digidol.

Mae'n adnodd y gall pobl ei ddefnyddio i helpu i fyfyrion ar eu gallu digidol a nodi sut i ddatblygu gwybodaeth a sgiliau cyfredol.

Mae'r Fframwaith ar gael ar lwyfan dysgu AaGIC, [Y-Ty-Dysgu](#).

Unwaith y bydd wedi'i gwblhau, gellir defnyddio'r adnodd hunanasesu yn ystod gwerthusiadau blynyddol, fel datblygiad proffesiynol parhaus i gefnogi ail-ddilysu proffesiynol. Mae'n dda gweld bod pobl yn y gweithlu fferylliaeth yn dechrau defnyddio'r adnodd. Hyd at fis Mawrth 2024, **mae 161 o staff fferyllol** wedi cwblhau'r Fframwaith Gallu Digidol:



*Cynorthwyr Dosbarthu, Rheolwyr, Gyrwyr

Mae'r nifer hwn yn cynnwys rhai staff sydd â rolau neu sefydliadau lluosog.

Rydym yn eich annog i ddarganfod ble mae eich cryfderau digidol, a sut gallwch chi ddatblygu trwy gwblhau'r fframwaith. Os oes gennych chi amser, rhowch wybod i ni sut hwyl gawsoch chi heiw.pharmacyworkforce@wales.nhs.uk

Thema 5

Gweithred 17

Sicrhau bod yr holl raglenni hyfforddi yn cael eu darparu yn unol â Fframwaith Ansawdd AaGIC.

Statws

Gweithred

Diweddariad

Mae cynnydd wedi'i wneud ar ddull mwy cydweithredol o reoli canlyniadau Ansawdd ar draws rhaglenni fferylliaeth a ariennir ac a gomisiynir gan AaGIC.

Mae AaGIC yn rhoi prosesau newydd ar waith yn fewnol a fydd yn helpu i gasglu metrigau ansawdd cyson a chanlyniadau ar draws yr holl raglenni addysg a hyfforddiant fferyllol.

Bydd hyn yn cyflawni ein cyfrifoldebau Dyletswydd Ansawdd a gofynion rheolyddion fferyllol. Ein canolbwynt yw Hydref 2024 pan fydd y tîm fferylliaeth yn disgwyl darparu cyfarfodydd Adolygu Ansawdd newydd ar gyfer ein holl bartneriaid hyfforddi, gyda ffocws o'r newydd ar brofiadau ansawdd yr hyfforddai, yr hyfforddwr a'r safle hyfforddi. Bydd hyn yn dwyn ynghyd adborth a chanlyniadau o holl weithgareddau hyfforddi fferylliaeth.

I gael rhagor o wybodaeth am Ddyletswydd Ansawdd:

<https://www.llyw.cymru/gofal-iechyd-ansawdd-dyletswydd>

Thema 5

Gweithred 19

Gweithio gyda phartneriaid i ddatblygu cynigion ar gyfer cynnwys genomeg a chynhyrchion meddyginiaethau therapi uwch o fewn addysg a hyfforddiant y gweithlu.

Statws

Gweithred

Diweddariad

Mae AaGIC yn gartref i dîm o arbenigwyr genomig. Mae hyn yn cynnwys Arweinydd Clinigol ar gyfer Ffarmacogenomeg, sy'n fferylllydd gweithredol. Mae ein tîm arbenigol yn gweithio ar Gynllun Gweithlu Genomeg Strategol i Gymru gyda chymorth Partneriaeth Genomeg Cymru (GPW). Bydd y cynllun yn sicrhau bod gennym weithlu arbenigol o'r maint

cywir mewn meddygaeth genomig. Bydd y gweithlu ehangach hefyd yn gallu ymateb yn hyderus i ddatblygiadau mewn gofal. Er enghraifft, yn y dyfodol gall hyn gynnwys profion genomig fel rhan o ymarfer o ddydd i ddydd.

Bydd ymagwedd gam wrth gam clir at ddatblygu gwybodaeth a sgiliau genomig y gweithlu fferylliaeth. Mae ein tîm yn gweithio'n agos gyda llawer o randdeiliaid ledled Cymru. Ym mis Rhagfyr 2023, arweiniodd y tîm yr 'wythnos llythrennedd genomeg' gyntaf, gan roi blas ar bob agwedd wahanol ar genomeg o fewn cyfres gweminarau cryno, gydag un gweminar yn benodol ar ffarmacogenomeg. Eisoes, mae 37 o staff fferylliaeth wedi ymgysylltu â'n dysgu ar-lein.

Gallwch gael mynediad i dudalen genomeg AaGIC i gael gwybodaeth am sut i ddechrau gyda genomeg a chyfeirio at adnoddau addysg. I'r rhai sy'n barod i weithredu, mae saith modiwl genomeg MSc wedi'u hariannu'n llawn ar gael trwy AaGIC. Cynigir modiwl ffarmacogenomig gan Brifysgol Bangor a chwe modiwl arall a gynigir gan Brifysgol Caerdydd ar bynciau genomig eraill gan gynnwys clefyd heintus a chanser.

[Genomics - HEIW \(aagic.gig.cymru.\)](https://aagic.gig.cymru)

Thema 6

Gweithred 24

Sefydlu llwybrau mynediad wedi'u teilwra ar gyfer pob grŵp staff fferyllol i ymgysylltu â'r adnoddau a'r adnoddau arwain tosturiol a chyfunol sydd ar gael ar Gwella.

Statws

Gweithred

Diweddariad

Mae uwch arweinwyr gwasanaethau aciwt wedi cwblhau gwaith braenaru dros y flwyddyn ddiwethaf gyda thîm Arwain AaGIC, a fydd bellach yn dod yn rhan o fusnes AaGIC o ddydd i ddydd. Sefydlodd Grŵp y Prif Fferyllwyr brosiect i wneud yn siŵr bod gan fferylliaeth dudalen we weithredol a chadarn Gwella Arweinyddiaeth Fferylliaeth, a fydd yn diwallu anghenion penodol y gweithlu fferyllol.

Bydd hyn yn cael ei wreiddio yn niwylliant arweinyddiaeth GIG Cymru. Mae cynnydd sylweddol wedi'i wneud ar lwybr fferylliaeth pwrpasol a gweladwy, o fewn Porth Arweinyddiaeth Gwella AaGIC. Rydym yn profi'r safle gydag aelodau'r tîm fferylliaeth drwy gydol Ebrill, Mai a Mehefin. Wrth aros am ganlyniadau llwyddiannus o'r profion, rydym yn bwriadu lansio'r llwybr newydd yr haf hwn.

Os oes gennych ddi-ddordeb mewn helpu gyda'r profion, cysylltwch â ni:

heiw.pharmacyworkforce@wales.nhs.uk

Yn ogystal â'r gwaith hwn mae ein Cymrawd Clinigol AaGIC wedi datblygu a lansio adnodd newydd sy'n canolbwyntio ar arweinyddiaeth tosturi ar Gwella. Gallwch gael mynediad at yr adnodd rhagoro [yma](#).

Thema 7

Gweithred 27

Gwella mynediad at wybodaeth am y gweithlu a sicrhau gwelededd data a chanlyniadau fferylliaeth yn AaGIC. Piblinell Addysg i Gyflogaeth.

Statws

Gweithred

Diweddariad

Mae ein Dangosfwrdd Gweithlu Fferylliaeth prototeip wedi'i greu i ddelweddu data gweithlu fferyllol a hyfforddeion fferyllol presennol. Mae'r adnodd newydd hwn yn cael ei ddilysu'n fewnol. Mae rhai bylchau yn y data wedi dod yn fwy amlwg, er enghraifft amlygrwydd y gweithlu fferylliaeth gymunedol.

Rydym yn datblygu cynllun gwaith â blaenoriaeth ar gyfer y 12 mis nesaf, gyda mewnbn gan ein partneriaid, i gau rhai o'r bylchau hynny.

Thema 7

Gweithred 28

Cyflwyno dadansoddiad systematig o ddata a chynllunio'r gweithlu ar gyfer gweithlu fferylliaeth gynaliadwy er mwyn galluogi gwell comisiynu a yrrir gan ddata.

Statws

Gweithred

Diweddariad

Dechreuodd Is-grŵp Cynllunio Gweithlu o Gynhadledd Deoniaid Addysg Fferylliaeth y DU (CoPED) ym mis Mawrth. Mae perthnasoedd gwaith cychwynnol yn cael eu datblygu rhwng AaGIC, NHS Education Scotland, GIG Lloegr a Chanolfan Dysgu a Datblygu Fferylliaeth Gogledd Iwerddon.


Mae'r grwpiau'n rhannu arfer da a byddant yn gweithio i ddarparu adroddiad gwybodaeth fferylliaeth lefel uchel yn y DU.

Blaenoriaethau 2024 a'r Camau Nesaf

Cylchdro Gweithredu Cynllun Gweithlu Fferylliaeth Strategol



Y Saith Thema Strategol



Ochr yn ochr â'r gweithgaredd a grybwyllir yn ein diweddariad, byddwn yn canolbwyntio ein hadnoddau am y 3 mis nesaf ar y Camau Gweithredu canlynol. Bydd ymgysylltu â rhanddeiliaid yn allweddol i lunio atebion a chanlyniadau. Rydym yn gyffrous i ddechrau gweithio gyda chi ar eu datblygiad a'u gweithrediad.

Thema 1

Gweithred 2

Datblygu canllawiau cynllunio swyddi fferylliaeth a phhecyn cymorth a fydd yn dod â'r cydbwysedd cywir o ran darparu gwasanaethau, datblygu eich hunan ac eraill, arweinyddiaeth, ymchwil ac arloesi pan gaiff ei roi ar waith gan gyflogwyr.

Thema 2

Gweithred 9

Er mwyn cefnogi gweithrediad cyson fframweithiau datblygu gyrfa ar draws holl feysydd gwasanaeth y GIG, mae pob disgrifiad swydd ar gyfer rolau fferylliaeth yn cael ei fapio i sgiliau a chymwyseddau fframweithiau gyrfa fferylliaeth genedlaethol gydnabyddedig (e.e. Y Gymdeithas Fferyllol Frenhinol).

Thema 3

Gweithred 10

Gwella ymwybyddiaeth a dealltwriaeth y cyhoedd o'r newid yn rolau fferylliaeth mewn gofal iechyd.

Gweithred 11

Fel sylfaen ar gyfer adeiladu mwy o gydweithio gyda'r gweithlu iechyd a gofal cymdeithasol ehangach, gwella'r ddealltwriaeth o sut mae pob rôl fferylliaeth yn trawsnewid.

Blwyddyn yn ddiweddarach

Wrth i ni agosáu at ben-blwydd cyntaf lansiad y Cynllun Gweithlu Fferylliaeth Strategol ym mis Mehefin 2023, rydym yn paratoui adolygiad blynyddol i edrych yn ôl dros y gwaith da sydd wedi digwydd ers ei lansio. Ochr yn ochr â'n hadroddiadau cynnydd arferol byddwn yn adolygu ac yn diweddarau ar gynnydd yn y maes canlynol:

- ☒ Cyfleoedd hyfforddi amlsector ar gyfer y gweithlu fferyllol
- ☒ Nifer cynyddol o oruchwylwyr dynodedig
- ☒ Datblygiad y fframwaith Technegydd Fferylliaeth Ôl-gofrestru
- ☒ Y defnydd o dechnolegau trochi yn ystod addysg a datblygiad

Cysylltwch!



Rydym yn gwerthfawrogi eich bod wedi rhoi o'ch amser i ddarllen y cylchlythyr hwn ac yn diolch i chi am eich cyfranogiad parhaus yn y gweithgareddau a fydd yn cyfrannu at lunio dyfodol y gweithlu fferylliaeth yng Nghymru. Os ydych chi'n cymryd rhan weithredol mewn mentrau o'r fath a hoffech chi rannu gwybodaeth am y gwaith rydych chi'n ei wneud, rydym ni'n croesawu'ch mewnwelediadau a'ch diweddariadau. Mae tîm cynllun gweithlu fferylliaeth strategol yn gwerthfawrogi eich adborth. Hoffem eich gwahodd i gymryd rhan mewn arolwg byr am eich profiad diweddar. Cliciwch ar y ddolen isod i rannu eich barn: [Ffurflen Adborth](#).

Gallwch chi hefyd gysylltu gyda ni drwy e-bost:

heiw.pharmacyworkforce@wales.nhs.uk

Dilynwch ni:

[aagic.gig.cymru](https://www.aagic.gig.cymru)

[facebook.com/AAGIC.GIG](https://www.facebook.com/AAGIC.GIG)

[x.com/AaGIC_GIG](https://www.x.com/AaGIC_GIG)

[linkedin.com/company/nhs-heiw](https://www.linkedin.com/company/nhs-heiw)